**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**30 MAWRTH 2022**

Cofnodion cyfarfod o bell Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher, 30 Mawrth 2022.

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Richard Lloyd (Is-gadeirydd yn Cadeirio)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Chris Bithell, Derek Butler, Chris Dolphin, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Ted Palmer, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol:
Cynghorydd Tudor Jones - Eitem rhif 6.2 (063458) ar y rhaglen
Cynghorydd Marion Bateman - Eitem rhif 6.4 (063312) ar y rhaglen

Roedd y Prif Weithredwr yn bresennol fel arsylwr.

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr: David Wisinger ac Ian Dunbar

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth – Datblygu, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Arweinydd Tîm - Rheoli Datblygiad, Uwch Swyddogion Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd

## 62. DATGANIAD CYSYLLTIAD

Yn ystod y drafodaeth am eitem rhif 6.1 (061585), datgelodd y Cynghorydd Christine Jones gysylltiad personol sy'n rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod ar ôl siarad ac ni chymerodd ran yn y bleidlais. Datgelodd gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn eitem 6.5 (063591) hefyd, a gadawodd y cyfarfod ar ôl siarad, cyn y drafodaeth a'r bleidlais.

Datgelodd y Cynghorydd Mike Peers gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn eitem 6.1 (061585) hefyd, a gadawodd y cyfarfod ar ôl siarad, cyn y drafodaeth a'r bleidlais.

## 63. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau i ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan y Cyngor:

https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4997&LLL=0

## 64. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Chris Bithell a Gladys Healey eu cynnig a'u heilio.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

## 65. EITEMAU I'W GOHIRIO

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) nad oedd unrhyw eitemau i'w gohirio.

## 66. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi ei gynnwys fel atodiad.

## 67. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a gorffennodd am 4.50pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau:http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home

**PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 30 MAWRTH 2022**

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 016585 | Cyngor Cymuned Sealand | Cais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl yn dilyn caniatâd amlinellol (059635) i godi 100 annedd gydag isadeiledd cysylltiedig yn hen Safle Corus Garden City, Garden City, Glannau Dyfrdwy. | Siaradodd Craig Sparrow, yr ymgeisydd, o blaid y cais.<br><br>Ar ôl datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu, gadawodd y Cynghorwyr Christine Jones a Mike Peers y cyfarfod cyn y bleidlais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i'r cais yn rhan o Rwymedigaeth Adran 106 i ddarparu'r canlynol:<br>• Sicrhau 100 annedd i fod yn fforddiadwy a'u cadw felly am byth.<br>• Sicrhau bod Cwmni Rheoli yn cael ei gynnwys yng ngwaith rheoli a chynnal a chadw man agored cyhoeddus ar y safle ac ardaloedd tirlunio cymunedol.<br><br>Hefyd yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 063458 | Cyngor Cymuned Ysceifiog | Cais llawn - Estyniad arfaethedig a gwaith ailwampio rhannol i Felin y Wern, Nannerch. | Siaradodd Simon Stack, preswylydd lleol yn erbyn y cais.<br><br>Siaradodd y Cynghorydd Tudor Jones, aelod ward lleol, yn erbyn y cais. | Bod y cais yn cael ei ohirio, hyd nes y ceir ymweliad safle. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 063721 | Cyngor Cymuned Sealand | Codi Melin i Brosesu Papur i gynhyrchu papur sidan (defnydd dosbarth B2 a B8) gyda gofod swyddfa B1a ategol; gwasanaeth ac isadeiledd cysylltiedig yn cynnwys maes parcio, mannau parcio i Gerbydau Nwyddau Trwm a mannau i gerbydau a cherddwyr; nodweddion lliniaru sŵn; gwaith daear i greu platfformau datblygu; creu nodweddion draenio yn cynnwys gollyngfa newydd i'r Afon Dyfrdwy; gwaith trin dŵr; a thirlunio ar Blot C Safle Airfields (Airfields Delta). Welsh Road, Sealand, Glannau Dyfrdwy. | Siaradodd Gavin Winter, asiant, i gefnogi'r cais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 063312 | Cyngor Cymuned Llaneurgain | Trawsnewid ac ymestyn Uned Ddiwydiannol i swyddfa a warws ym Mharc Gwledig Llaneurgain, Estate Roads, Llaneurgain. | Siaradodd Huw Evans, yr asiant, i gefnogi'r cais.<br><br>Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran preswylydd lleol. | Bod y cais yn cael ei ohirio, i gynnwys amodau ar gynllun rheoli safle adeiladu, symudiad traffig/cerbydau nwyddau trwm a chadw coed a gwrychoedd. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| | | | Siaradodd y Cynghorydd Marion Bateman, aelod ward lleol, yn erbyn y cais. | |
| 063591 | Cyngor Cymuned Sealand | Cais i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl yn dilyn caniatâd amlinellol (059635) yng nghyn Safle Corus Garden City, Welsh Road, Garden City. | Siaradodd Imogen Zulver, asiant, o blaid y cais.<br><br>Ar ôl datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu, gadawodd y Cynghorwyr Christine Jones y cyfarfod ar ôl siarad, ac nid oedd yn bresennol ar gyfer y bleidlais. | Rhoi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i'r cais yn rhan o Rwymedigaeth Adran 106 i ddarparu'r canlynol:<br>• Talu cyfraniad ariannol tuag at Addysg o £970,600.00 i Ysgol Gynradd Sealand ac Ysgol Uwchradd Penarlâg.<br>• Sefydlu Cwmni Rheoli i reoli a chynnal a chadw man agored cyhoeddus ar y safle ac ardaloedd tirlunio cymunedol yn y dyfodol.<br><br>Hefyd yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE / CAIS | SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 063741 | Cyngor Tref Shotton | Cais llawn i ddymchwel byngalo a thai allan. Codi 3 byngalo newydd (cynllun diwygiedig i'r un a wrthodwyd o dan gyfeirif 060481) yn 26 Queensway, Shotton, Glannau Dyfrdwy. | Siaradodd Pete Lloyd, asiant, o blaid y cais.<br><br>Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran preswylydd lleol.<br><br>Darllenwyd datganiad ar ran y Cynghorydd Sean Bibby, aelod ward lleol, yn erbyn y cais. | Cymeradwyo caniatâd cynllunio yn amodol bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Rwymedigaeth Adran 106 neu wneud rhagdaliad o £1100 fesul annedd yn lle darpariaeth hamdden ar y safle, gyda'r arian yn cael ei ddefnyddio i wella darpariaeth chwarae plant bach ym Maes Chwarae King George Street.<br><br>Hefyd yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog. |
| 062863 | Cyngor Cymuned Sealand | Cais llawn ar gyfer datblygiad arfaethedig o 4 uned bwyd a manwerthu dosbarth E(a) a E(b) a maes parcio cysylltiol ac arwyddion ar safle'r hen westy "Gateway to Wales", Welsh Road, Garden City. | Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran preswylwyr lleol.<br><br>Darllenwyd datganiad o gefnogaeth ar gyfer y cais gan yr asiant, Rob Hempsall. | Gwrthod rhoi caniatâd cynllunio, yn groes i argymhelliad swyddog, ar y sail ganlynol:<br><br>• Diffyg parcio dynodedig a darpariaeth llwytho/dadlwytho ar gyfer cerbydau darparu gwasanaeth.<br>• Effaith ar fannau parcio dynodedig i bobl anabl. |